

Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr

Nod

Nod yr Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yw galluogi myfyrwyr i gymryd rhan weithredol o ran datblygu yr brifysgol, y rhaglenni academaidd a'r profiad dysgu. Rydym yn gwneud hyn trwy agor ein strwythurau i gynyddu cyfranogiad myfyrwyr, a thrwy weithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr ar amrywiaeth o brojectau arloesol, megis ein hymgyrch adborth myfyrwyr sefydliadol.

Mae'r Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr yn gweithio gyda chyfarwyddwyr ennyn diddordeb myfyrwyr ym mhob un o'r ysgolion academaidd, i hwyluso gweithgareddau ennyn diddordeb myfyrwyr a hyrwyddo cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth. Fel tîm, rydym hefyd yn goruchwyllo arolygon myfyrwyr a weinyddir ar draws y campws, yn cynnwys cynllunio, hyrwyddo ac adrodd, gweithio gyda staff a myfyrwyr a chreu cynlluniau gweithredu i gynhyrchu newid cadarnhaol.

Amcanion

- Rhoi cefnogaeth i gyfarwyddwyr ennyn diddordeb myfyrwyr wrth ddarparu gweithgareddau ennyn diddordeb myfyrwyr ar sail data a gesglir mewn arolygon myfyrwyr a phrosesau eraill i gasglu adborth gan fyfyrwyr.
- Sefydlu ymgyrch ar draws y sefydliad sy'n annog gweithio mewn partneriaeth rhwng staff a myfyrwyr, ac sy'n hyrwyddo'r newidiadau a wneir o ganlyniad i adborth myfyrwyr, i'r staff a'r corff myfyrwyr.
- Gweithio gydag ysgolion ac adrannau i ennyn diddordeb myfyrwyr wrth werthuso eu profiad myfyrwyr trwy amrywiaeth o ddulliau arloesol i gasglu adborth, megis digwyddiadau cynllunio gweithredu staff/myfyrwyr blynyddol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr ryngweithio â mentrau ennyn diddordeb myfyrwyr trwy gydol y flwyddyn academaidd.
- Gwerthuso profiad myfyrwyr, o gyrraedd i raddio, a darparu data a dadansoddiad cadarn i staff a myfyrwyr, i gefnogi cyfeiriad ennyn diddordeb myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor.

[Danielle Barnard](#)

Pennaeth Ennyn Diddordeb Myfyrwyr